# NEWYDDION YR ACADEMI

*CYLCHLYTHYR SWYDDOGOL ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU*




## CROESO

*Lara-Susan James (Rheolwr Ansawdd yr Academi)*

Croeso i'n Cylchlythyr diweddaraf. Yn gyntaf, hoffem estyn croeso cynnes iawn i'n pumed garfan o Hyfforddeion Radioleg Glinigol a ddechreuodd gyda ni ym mis Awst. Dymunwn bob lwc iddynt ar y daith gyffrous sydd o'u blaenau yn yr arbenigedd Radioleg.

Rydym wedi bod yn brysur iawn yma yn yr Academi Ddelweddu, a bydd y cylchlythyr hwn yn arddangos rhai o'r gweithgareddau y mae'r Academi Ddelweddu wedi bod yn gysylltiedig â nhw. Mae hyn yn cynnwys erthyglau ar Adolygiad 5 Gateway a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ymchwil a wnaed gan Rory Clark, adroddiad ar gynnal y gynhadledd ATOM a llwyddiant y rhaglen hyfforddi treialu LIFT! Rydym hefyd yn cyflwyno adran cwrdd â'r tîm y gobeithiwn y bydd yn eich helpu i ddod i adnabod y tîm yn well yma yn yr Academi.

Wrth symud ymlaen gallwch ddisgwyl rhifynnau rheolaidd eraill o'r cylchlythyr hwn a fydd yn cynnwys y newyddion diweddaraf, diweddariadau ac ystod o wybodaeth sy'n berthnasol i'r Academi. Os hoffech gyfrannu atynt, anfonwch e-bost atom yn imaging.academy@wales.nhs.uk

## CYNNWYS Y RHIFYN:


### ERTHYGLAU NODWEDD
ADOLYGIAD 5 GATEWAY™ OGC 5 O ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU
CYFLWYNO EIN TÎM GWEINYDDIAETH YN YR ACADEMI — 2

### ARLOESI AC YMCHWIL
STRATEGAETH NEWYDD YR ACADEMI
PROSIECT: GWELLA CYDWEITHREDIADAU DYNOL GYDA SYSTEMAU A YSGOGIR GAN DDATA A DEALLUSRWYDD — 4

### CYDWEITHIO
CYNHADLEDD ATOM 2022 — 5

### HYFFORDDIANT
BETH YW POCUS?
CYNLLUN TREIALU LLWYDDIANNUS O RAGLEN LIFT — 7

### DIGWYDDIADAU
DIGWYDDIADAU DIWEDDAR
DIGWYDDIADAU I DDOD — 8

# ERTHYGLAU NODWEDD

## Adolygiad 5 Gateway™ OGC o Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru

*Victoria Whitchurch (Rheolwr yr Academi)*

Comisiynwyd Adolygiad 5 Gateway yr Academi gan Lywodraeth Cymru ar ran yr Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO), Dr Phillip Wardle, Cyfarwyddwr yr Academi.

Prif ddibenion Adolygiad 5 Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC): Adolygiad gweithrediadau a gwireddu manteision, yw asesu a yw'r manteision a ragwelir yn cael eu cyflawni a bod y trefniadau cytundebol parhaus yn diwallu'r angen busnes.

Cynhaliwyd yr adolygiad ar ddiwedd 2021 ac mae Uwch Dîm Rheoli yr Academi yn ddiolchgar am yr ymgysylltu sylweddol gan yr holl randdeiliaid a wahoddwyd a Thîm Gateway a gyfrannodd at yr adolygiad, a oedd yn ganmoliaethus iawn am yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Delivery Confidence Assessment:**

| Scope | Outcome | Criteria Description |
|---|---|---|
| Implementation | Amber/Green | Successful delivery appears probable. However, constant attention will be needed to ensure risks do not materialise into major issues threatening delivery. |
| Future Development | Amber/Red | Successful delivery of the project is in doubt with major risks or issues apparent in a number of key areas. Urgent action is needed to ensure these are addressed, and establish whether resolution is feasible. |

Roedd prif ganlyniadau'r adolygiad yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

- Datblygu gweledigaeth a chwmpas newydd ar gyfer y dyfodol
- Yr Academi i gynhyrchu adroddiad gwerthuso sy'n manylu ar weithgareddau, a manteision hyd yn hyn
- Yr angen i ddatblygu cynllun cydnerthedd gweithrediadau busnes a chynllun capasiti
- Angen gwerthusiad effaith ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn llywio datblygiad yn y dyfodol a nodi manteision a'u gwireddu.
- Ystyried agwedd fwy ffurfiol tuag at gynllun i gyn-fyfyrwyr

Mae'r Adolygiad wedi ysgogi uchelgais tîm rheoli yr Academi i fanteisio ar ei photensial ac mae'n bwriadu myfyrio ar hyn mewn cylchlythyrau yn y dyfodol. Roedd yr Adolygiad yn ddefnyddiol iawn ac yn rhoi boddhad ac roedd yn ganmoliaethus iawn am yr hyn y mae'r academi, a'i thîm, wedi ei gyflawni.

# ERTHYGLAU NODWEDD

## Cyflwyno Tîm Gweinyddiaeth yr Academi

*Hannah Brimson (Gweinyddwr yr Academi)*

Rydych chi'n adnabod ein hwynebau; efallai eich bod chi hyd yn oed yn gwybod ein henwau, ond ydych chi mewn gwirionedd yn gwybod beth yw ein rôl ni yma yn yr Academi?

Nid dim ond eistedd wrth ddesg y dderbynfa, yn eich cyfarch gyda gwên braf a'ch atgoffa i lofnodi, fyddwn ni'n ei wneud. Mae yna reswm pam nad ydych chi fel arfer yn gweld yr un wyneb ddeuddydd yn olynol yn y dderbynfa, a hynny oherwydd ein bod ni'n rhannu ein hamser rhwng y swyddfa reoli a'r ddesg flaen. Mae cefnogi y rheolwyr Hyfforddwyr a'r Academi yn rhan o'n gwaith o ddydd i ddydd, o anfon e-byst i ddatrys problemau Teams, ni yw'r alwad gyntaf. Eisiau trefnu cyfarfod neu gynhadledd? Mae hynny hefyd yn rhan o'n gwaith ni. Ni yw eich pwynt cyswllt, ac rydym yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac yn eich cynorthwyo gyda'ch gofynion.

Oeddech chi'n gwybod ein bod ni hefyd yn trefnu'r cyrsiau sy'n cael eu cynnal yma yn yr Academi?

O'r sgyrsiau cychwynnol i gynorthwyo ar y diwrnod, rydyn ni yno bob cam o'r ffordd. Rydym yn gweithio'n agos gyda chyd-gysylltwyr ein cyrsiau i drafod disgwyliadau, marchnata a darpariaeth. Rydyn ni'n creu'r holl ddeunyddiau marchnata, yn trefnu'r arlwyo ac ar y dydd, rydyn ni'n goruchwylio i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn ddidrafferth. Nid dyna ddiwedd ein gwaith, oherwydd yna rydym yn casglu'r adborth ac yn cydlynu â chyd-gysylltydd y cwrs i wneud gwelliannau ar gyfer y tro nesaf.



Rydym hefyd yn cynnal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Academi, gan greu graffeg drawiadol a chynnwys hashnodau. Felly, os welwch chi un o'n postiadau ar Twitter, cofiwch ei hoffi.

# ARLOESI AC YMCHWIL

## Strategaeth Newydd yr Academi

*Lara-Susan James (rheolwr Ansawdd yr Academi)*

Mae hanner cyntaf 2022 wedi bod yn gyfnod o fyfyrio a chynllunio o ran yr hyn y mae'r academi wedi'i gyflawni ers yr agoriad cyntaf, a sut olwg ddylai fod ar y cynllun ar gyfer dyfodol yr Academi. Mae hyn yn cynnwys strategaeth gymeradwy sy'n gosod cyfeiriad clir, a fydd yn cael ei lansio erbyn diwedd y flwyddyn. Ynghyd â hyn, rydym yn sefydlu canllawiau ynghylch ein cwmpas o ran ymchwil ac arloesedd, ac mae gennym uchelgeisiau i gynyddu ein gallu i hwyluso ymchwil ac arloesedd, sy'n seiliedig ar werthoedd, o ansawdd uchel. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am swyddogaeth hon yr Academi neu os hoffech drafod unrhyw gydweithio ar brosiectau gyda ni, cysylltwch â ni ar niaw.quality@wales.nhs.uk



## Prosiect: Gwella Cydweithrediadau Dynol gyda Systemau a Ysgogir gan Ddata a Deallusrwydd

*Rory Clark (Myfyriwr PhD EPSRC, Prifysgol Abertawe)*

Nod y prosiect hwn yw darparu fframwaith clinigol i'r GIG sy'n caniatáu gweithredu a gwerthuso lefel uchel technoleg Deallusrwydd Artiffisial a Dysgu Peirianyddol newydd mewn Radioleg. Yn draddodiadol, mae hon yn broses gymhleth ac anodd sy'n gofyn am wybodaeth fanwl o'r ddisgyblaeth. Ein nod yw datblygu fframwaith sy'n caniatáu mabwysiadu systemau newydd yn gyflymach a mwy diogel er mwyn caniatáu i'r GIG gadw i fyny â byd y gwyddorau iechyd sy'n digideiddio'n gyflym.

Ar hyn o bryd, mae'r ymchwil hon yn ei gamau cynnar, ac felly mae gan y gwaith yr ydym yn ei wneud bwyslais ar archwilio llif gwaith clinigol Radiolegwyr a'u rhyngweithio â thechnoleg. Rydym ar yr un pryd yn cynnal dwy astudiaeth: astudiaeth arsylwadol lle nad ydym yn cael llawer, neu ddim, ymadweithio gyda'r Radiolegydd a dim ond yn archwilio'r broses o wneud adroddiad er mwyn casglu persbectif o'r tu allan ar y broses, a gweithdy lle rydym yn cynnwys y clinigwr i esbonio ei lif gwaith a sut mae technoleg yn effeithio ar ei waith. Rhwng y ddwy astudiaeth hyn gallwn ennyn safbwyntiau diduedd a rhai â thuedd ar sut mae Radiolegwyr yn cyflawni eu gwaith i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o rôl technoleg yn y maes.

# CYDWEITHIO

## Cynhadledd ATOM 2022

*Natalie Wiltshire ac Ella Simmons (Gweinyddiaeth yr Academi)*




Un o brif amcanion Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru yw cydweithio â gwahanol sefydliadau, ac fel rhan o hyn, fe wnaethom gynnal ATOM 2022 yn ddiweddar, sef Cyfarfod Hyfforddeion Oncoleg Blynyddol Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, ym mis Mai. Dilynodd y gynhadledd raglen amrywiol i gwmpasu llawer o bynciau sy'n berthnasol i bob blwyddyn o hyfforddiant Oncoleg Glinigol.




Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd sesiynau cynllunio radiotherapi rhyngweithiol grŵp bach a diweddariadau mewn oncoleg gastroberfeddol. Roedd yn canolbwyntio ar sgiliau craidd ar gyfer bywyd meddyg ymgynghorol, gyrfaoedd mewn ymchwil ac awgrymiadau ar gyfer arholiadau FRCR.




Cynhaliwyd y gynhadledd dros ddeuddydd a chyflwynwyd darlithoedd wyneb yn wyneb ac yn rhithiol gan Feddygon Ymgynghorol o fewn Byrddau Iechyd GIG Cymru, ac ymunodd un meddyg ymgynghorol o Awstralia. Roedd yr hyfforddeion oncoleg yn ffodus hefyd bod Dr Jeanette Dickson, Llywydd Coleg Brenhinol y Radiolegwyr wedi cyflwyno sgwrs ar sgiliau arwain yn ystod ATOM 2022. Trefnwyd y cwrs gan Dr Amy Case, Dr Rhiannon Evans a Dr Jennifer Kahan. Ymhlith y noddwyr roedd Servier, Amgen, Roche, Ipsen ac Exact Sciences.

# HYFFORDDIANT

## Beth yw POCUS?

*Natalie Wiltshire (Gweinyddwr yr Academi)*

Mae Uwchsain yn y Lleoliad Gofal (Point of Care Ultrasound (POCUS)) yn defnyddio uwchsain cludadwy i ateb cwestiynau clinigol wrth ochr y gwely, bron fel estyniad o archwiliad clinigol o gleifion. Mae meddygaeth acíwt yn ymwneud â'r asesiad cychwynnol, ymchwilio, diagnosis, a rheoli cleifion sydd â sbectrwm eang o broblemau clinigol sy'n dod i'r ysbyty dan amodau acíwt. Focused Acute Medicine Ultrasound (FAMUS) yw'r safon uwchsain yn y lleoliad gofal a grëwyd yn benodol ar gyfer meddygon Meddygaeth Acíwt a chaiff ei chydnabod gan y pwyllgor AIM yn sgil arbenigol.

Mae gwneud yr asesiad cychwynnol yn iawn yn hollbwysig. Mae ategu archwiliad corfforol gydag uwchsain yn caniatáu i glinigwyr weld yn hytrach na dyfalu beth sy'n bod ar eu cleifion, sy'n gwella cywirdeb cyffredinol. Mae dyfyniad diweddar gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr yn dweud 'bydd cynyddu nifer yr ymarferwyr uwchsain cymwys yn y lleoliad gofal yn gwella gofal'.

Mae'r Academi Ddelweddu Genedlaethol wedi gweithio'n agos gyda threfnydd y cyrsiau; Dr. Eugene Tabiowo, ers cychwyn y cyrsiau ac wedi gweld nifer fawr o glinigwyr yn elwa ar brofiad ymarferol dros gyfnod y cwrs deuddydd. Gan fod y cwrs bellach wedi dod yn ofyniad gorfodol i'r rhai sy'n astudio Meddygaeth Acíwt, bydd amlder y cwrs yn cynyddu, ac rydym yn edrych ymlaen at arallgyfeirio'r cwrs gyda mewnwelediad, sgil, ac ymroddiad parhaus Dr Tabiowo i'w lwyddiant.



## Tystebau pobl sydd wedi dilyn y cwrs

"Mae'r Academi Ddelweddu yn amgylchedd pwrpasol ardderchog i ddysgu POCUS. Roedd addysgu mewn grwpiau bach ar fodelau a mannequins soffistigedig yn fuddiol iawn ac yn rhoi amrywiaeth eang o ddelweddau. Mae'r gyfadran yn amlwg yn angerddol ac yn hyddysg"

"Cwrs rhagorol sy'n darparu sgiliau defnyddiol iawn a fydd, gobeithio, yn parhau i ddatblygu. Cyfadran a chyfleusterau gwych gydag esboniadau arbennig o gysyniadau cymhleth. Roedd hi'n wych cael cymaint o gyfleoedd ymarferol hefyd."

"Cwrs ardderchog o ran gwerth i gael/ ehangu sgiliau uwchsain. Mae'r gyfadran yn wybodus, yn hawddgar ac yn gyfeillgar. Mae gwneud y cwrs fel nyrs yn frawychus ond nid oes angen iddo fod! Cwrs gwych i Uwch-ymarferwyr Nyrsio sydd angen sgiliau uwch ym maes uwchsain"

# HYFFORDDIANT

## Cynllun Treialu llwyddiannus o Raglen LIFT

*Ella Simmons (Gweinyddwr yr Academi)*

Wrth i flwyddyn gyntaf y Rhaglen Radioleg LIFT (Longitudinal Integrated Foundation Training) ddod i ben, mae'n bleser gan Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru gyhoeddi y byddwn yn croesawu hyfforddeion LIFT newydd ym mis Awst 2022. Mae'r Rhaglen Radioleg LIFT yn cynnig sesiynau hyfforddi rheolaidd i feddygon F1 mewn gwahanol amgylcheddau, sy'n cynnwys un diwrnod yr wythnos o brofiad Radioleg yn ystod cylchdro blwyddyn yn Adrannau Radioleg BIP Cwm Taf Morgannwg a'r Academi Ddelweddu Genedlaethol. Caiff hyn ei gwblhau ochr yn ochr â chylchdro gwesteiwr Meddygaeth Frys, Llawfeddygaeth Gyffredinol a Meddygaeth Gyffredinol.

Dyluniodd y GIG y rhaglen i esblygu'r modelau hyfforddi i arfogi meddygon y dyfodol â set sgiliau eang i'w galluogi i ymateb i anghenion gofal iechyd cymdeithas sy'n newid yn barhaus. Yn ystod y lleoliad, bydd meddygon F1 yn mynychu hyfforddiant yn yr Academi ddelweddu ac Adrannau Radioleg Ysbytai BIP CTM.

Trwy 2021 i 2022 mae'r Academi wedi deryn tri F1, ym mis Awst byddwn yn derbyn tri F1 newydd wrth iddynt ddilyn y Rhaglen Radioleg LIFT. Bydd y meddygon F1 newydd yn cael sesiynau blasu o fewn Adrannau Radioleg, yn mynychu hyfforddiant Radioleg Glinigol yn yr Academi ochr yn ochr â hyfforddeion ST1, byddant yn cwblhau prosiect gwella ansawdd, dysgu am y risgiau sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio a sut i wneud y defnydd gorau o Adran Radioleg. Nod y Rhaglen Radioleg LIFT yw sicrhau bod yr F1 yn datblygu ymwybyddiaeth o Radioleg, deall atgyfeirio priodol a llwybrau cleifion a sgiliau dehongli delweddau sylfaenol.

Croesawodd yr Academi y cyfle i ddangos cipolwg ar Radioleg Glinigol i'r meddygon F1 ac rydym bellach yn awyddus i gwrdd â'n meddygon F1 newydd ym mis Awst 2022.



# DIGWYDDIADAU

## CYRSIAU, DIGWYDDIADAU AC ADDYSG ARALL DIWEDDAR

| Cwrs | Dyddiad | Trefnydd |
|---|---|---|
| Cwrs Dehongli Delweddau | 9 a 13 Awst 2022 | Dr Michael Obiako |
| Cwrs Adolygu 2B FRCR 2B | 8 a 9 Medi 2022 | Dr Tishi Ninan |
| Cwrs Obstetreg a Gynaecoleg | 9 Medi 2022 | Dr Manju Nair |
| Cwrs Deuddydd Pelydr-X ar y Frest | 22 a 23 Medi 2022 | Dr Aleksander Marin |

## CYRSIAU DIGWYDDIADAU AC ADDYSG ARALL SYDD I DDOD

| Cwrs | Dyddiad | Trefnydd |
|---|---|---|
| Cwrs Sefydlu Radioleg ENP | 27 Medi 2022 | Dr Michael Obiako |
| BSGAR: Diwrnod Astudio Athro Teithiol | 20 Hydref 2022 | Dr Anthony Higginson<br>Dr Nigel Grunshaw |
| POCUS | 24 a 25 Hydref 2022 | Dr Eugene Tabiowo |
| Cwrs Dehongli Delweddau | 10 a 13 Rhagfyr 2022 | Dr Michael Obiako |

Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i ran 'Digwyddiadau a Chyrsiau' ein gwefan.
www.imagingacademy.wales